IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 19 IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Taylor a/ac Goddard |

## 1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 2 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - THE VAULTS, PORTLAND HOUSE

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Chris Spiteri, Perchennog<br>Dave Corbett, Rheolwr Diogelwch |

Y Cais

Daeth cais i law am grant Trwydded Safle gan Mount Events Barry Limited, mewn perthynas â 113-116 Stryd Bute, Bae Caerdydd, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) O safbwynt y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno
2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf ffilmiau, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi'i recordio a pherfformiadau dawns (tu fewn)
3. Darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do)

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Mae'r eiddo yn gell danddaearol o dan hen neuadd fancio. Mae iddo gynllun unigryw iawn â sawl ystafell wahanol, ond mae iddo ôl troed mawr iawn. Mae'r lleoliad wedi'i amddiffyn gan waliau 1200mm o drwch, sy'n ardderchog o ran sain, ac wedi'i addurno gan ddeunyddiau anfflamadwy. Mae wedi'i leoli o dan adeilad Portland House, a chaiff ei ystyried yn un o'r lleoliadau tanddaearol gorau yn y DU".

(3) Oni bai y nodir fel arall gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

Dydd Llun i ddydd Mercher: 09:00 tan 00:00
Dydd Iau i ddydd Sul: 09:00 tan 05:00

(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:
   Dydd Llun i ddydd Mercher: 09:00 tan 00:00
   Dydd Iau i ddydd Sul: 09:00 tan 05:00

2. Darparu adloniant wedi’i reoleiddio ar ffurf ffilmiau, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi’i recordio a pherfformiadau dawns (tu fewn):
   Dydd Llun i ddydd Mercher: 09:00 tan 00:00
   Dydd Iau i ddydd Sul: 09:00 tan 05:00

3. Darparu lluniaeth hwyr y nos:
   Dydd Llun i ddydd Mercher: 23:00 tan 00:00
   Dydd Iau i ddydd Sul: 23:00 tan 05:00

Ar ddechrau’r cyfarfod, dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr ymgeisydd wedi derbyn yr argymhellion y gofynnwyd amdanynt yn sylwadau ysgrifenedig Heddlu De Cymru.

<u>Sylwadau’r Ymgeisydd</u>

Siaradodd Mr Chris Spiteri â’r Is-bwyllgor. Dywedodd Mr Spiteri ei fod wedi synnu bod gwrthwynebiad wedi dod i law gan nad oedd unrhyw gwynion wedi bod yn y gorffennol mewn perthynas â digwyddiadau yn yr eiddo, ac roedd yr ymatebydd yn byw ymhell o'r eiddo.

Dywedwyd wrth Aelodau hefyd bod lefelau sain yn cael eu monitro a'u recordio mewn nifer o leoliadau ger yr eiddo pan fydd digwyddiad yn cael ei gynnal. Canfyddir bod y lefelau sain agosaf at y preswylwyr yn gyffredinol is. Ychydig iawn o sŵn sy’n treiddio allan a phan mae'r drws ynghau, sŵn hymian isel yn unig y gellir ei glywed. Yn hwyrach yn y noson, mae'n ymddangos bod mwy o sŵn yn treiddio allan wrth i'r ardal gyfagos ddistewi tipyn.

Datganodd Mr Dave Corbett ei fod bob amser ar y safle pan fydd digwyddiadau'n cael eu cynnal ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i’w sylw. Mae cysylltiad rheolaidd â Heddlu De Cymru a rhoddir adroddiadau cyn ac ôl i ddigwyddiadau cynnal digwyddiadau. Er nad oes unrhyw sylwadau wedi dod i law gan y tîm Rheoli Llygredd, roedd yr ymgeiswyr hefyd yn barod i ystyried mesurau lliniaru sŵn pellach, megis gosod llenni acwstig.

Gofynnodd Mr Corbett sut y gellir gwirio dilysrwydd unrhyw wrthwynebiadau. Nododd swyddogion fod penderfyniadau’r Is-bwyllgor wedi’u selio ar dystiolaeth, a byddai mwy o bwysau’n cael ei roi petai wrthwynebydd yn mynychu’r achosion er mwyn cyflwyno datganiad yn bersonol.

Wrth ymateb i gwestiwn am sbwriel a gwastraff, dywedodd Mr Spiteri fod glanhawyr yn cael eu cyflogi i lanhau ardal y porthor a'r ardal allanol ar ôl i ddigwyddiadau ddod i ben erbyn 10.00am y diwrnod hwnnw. Mae oddeutu 30 o gwmnïau yn masnachu uwchben y lleoliad, ac mae’n hanfodol bod yr ardal yn cael ei glanhau cyn bod y cwmnïau hynny yn agor am fusnes.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi’r Awdurdod Trwyddedu, bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo’r cais.